Dechrau achos llys

Os ydych chi wedi bod yn trafod gyda masnachwr er mwyn datrys cwyn defnyddiwr ond heb lwyddiant, efallai y dylech ystyried mynd i'r llys. Cyn cymryd camau cyfreithiol, fe ddylech chi wneud yn siŵr eich bod wedi rhoi cynnig ar opsiynau eraill i ddatrys eich anghydfod. Bydd angen i chi ateb y cwestiynau canlynol:

Ddylwn i ddefnyddio Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR)?

Mae ADR yn cynnwys cynlluniau sy'n ceisio datrys anghydfodau heb yr angen am achos llys. Bydd llawer o'u penderfyniadau yn rhwymo'n gyfreithiol ac yn eich rhwystro rhag cymryd achos llys ac eithrio i orfodi dyfarniad. Os oes gennych broblem gyda masnachwr sy'n aelod o gymdeithas fasnach gyda chynllun cymodi neu gyflafareddu, fe ddylech chi ystyried y dull amgen hwn. Os yw'ch anghydfod dros £5,000, fe ddylech chi drafod yr opsiwn hwn gyda'ch cyfreithiwr.

Efallai y byddwch yn penderfynu cymryd achos llys yn lle defnyddio ADR os:

- **nad** yw'r masnachwr yn **aelod** o **gymdeithas fasnach** gyda chynllun cymodi neu **gyflafareddu**; *neu*
- os yw'r **swm** yr ydych yn ei hawlio **o dan £5,000** ac yn cael ei drin fel hawliad bychan (gweler isod); *neu*
- os oes gennych dyst amharod. Dim ond y llys all orfodi tyst i fynychu; *neu*
- os nad oes cyfyngiad ar y swm o iawndal y gallwch ei hawlio, er enghraifft, mewn cais esgeuluster. Gall ADR gael cyfyngiadau ar y lefel o daliadau y gall ei ddyfarnu.

All y masnachwr fforddio talu?

Mae'n annhebygol y cewch chi'ch arian os bydd y masnachwr:

- yn **ddi-waith** neu ar **incwm isel**; *neu*
- mewn dyled ac yn methu fforddio talu. Fe allwch ddarganfod os oes gan y masnachwr unrhyw ddyfarniadau llys sirol sy'n ddyledus, dyfarniadau Uchel Lys neu ddirwyon trwy chwilio'r Gofrestr Dyfarniadau,Gorchmynion a Dirwyon ar lein yn www.trustonline.org.uk *neu*
- **heb arian** ac yn berchen ar ddim byd arall o werth.

Os oes gan y masnachwr incwm isel, fe allech chi gael eich arian os ydych yn barod i dderbyn taliadau isel (weithiau mor fychan â £1 y mis).

Allwch chi fforddio mynd i'r llys?

Mae'r rhan fwyaf o achosion defnyddwyr yn cael eu gwrando yn y **llys sirol**. Fe allwch ddefnyddio'r weithdrefn **hawliadau bychain** ar gyfer hawliau sy'n **£5000 neu lai** (£1000 neu lai ar gyfer anaf personol) yn erbyn person neu gwmni yn Lloegr neu Gymru. Os amddiffynnir yr achos gan y masnachwr, bydd y llys yn gosod yr achos mewn un o dri thrac: trac yr hawliadau bychain; y trac cyflym ar gyfer y rhan fwyaf o achosion rhwng £5,000 a £25,000 neu'r aml drac i achosion dros £25,000 a'r rheiny sy'n rhy gymhleth i'w trafod gan y llysoedd isaf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os ydych chi'n defnyddio gweithdrefn yr hawliadau bychain, bydd costau'r hyn y bydd yn rhaid i chi eu talu yn cynnwys:

- **ffioedd llys**. Mae'n rhaid i chi dalu ffî wrth ddechrau'ch cais (bydd y swm yn dibynnu ar faint yr ydych yn ei hawlio) a mwy o ffioedd os bydd y masnachwr (yr amddiffynnydd) yn amddiffyn yr achos. Os enillwch chi, ychwanegir y ffioedd hyn at y swm mae'n rhaid i'r amddiffynnydd ei dalu. Efallai y gallwch gael y ffî wedi'i hepgor neu leihau os, er enghraifft, yr ydych yn derbyn budd-daliadau megis Cymhorthdal Incwm neu ar incwm isel; *a*
- **costau tystion**. Os amddiffynnir eich achos ac y byddwch yn defnyddio tystion, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu eu treuliau teithio a swm penodol tuag at gost colli cyflog; *a*
- **ffioedd a threuliau arbenigwr** os bydd angen adroddiad arbenigwr arnoch i gefnogi'ch achos. Lle mae'n angenrheidiol i benodi arbenigwr, dylai hwn fod yn **arbenigwr sengl ar y cyd**, ac fe fydd yn gyfrifol i'r llys yn hytrach nag i un parti neu'r llall. Cyn cyfarwyddo arbenigwr, fe ddylech geisio cytuno gyda'r ochr arall ynglŷn â **dewis** yr arbenigwr a'ch bod ill dau yn rhwym i ganfyddiadau'r arbenigwr. Os ydych chi'n gallu cytuno, bydd y llys yn debygol o dderbyn penderfyniad yr arbenigwr ac fe ddylech chi hefyd allu cael arian y ffî yn ôl os yw'ch cwyn yn cael ei ategu (i fyny hyd at y cyfyngiad a osodir gan y Llys). Bydd y llys yn caniatáu arbenigwr i fynychu'r gwrandawiad dim ond os yw'n gwbl angenrheidiol ac yn ceisio dibynnu ar adroddiad ysgrifenedig. Os na chewch chi ganiatâd y llys cyn defnyddio arbenigwr, fe ellir anwybyddu eu tystiolaeth ac efallai y bydd yn rhaid i chi dalu eu holl gostau; *a* .
- **costau teithio ychwanegol** os yw'r achos ar gyfer swm penodol o arian, y diffynnydd yn unigolyn sy'n amddiffyn eich cais ac mae'r achos yn cael ei drosglwyddo i'w llys lleol.

Os **enillwch** chi , gall y llys orchymyn y **diffynnydd** i **dalu** rhan o'r **costau** hyn neu'r costau'n llawn. Fe allwch chi hefyd hawlio rhai costau eraill megis swm cyfyngedig o iawndal i'ch helpu gyda phethau megis amser a gollwyd yn y gwaith a chost galwadau ffôn. Sut bynnag, mae'n annhebygol y byddwch yn adennill popeth a dalwyd gennych. Fe ddylech geisio mynd â phrawf o unrhyw golledion gyda chi i'r llys. Os **gollwch** chi, bydd rhaid i chi **dalu costau'r diffynnydd**, yn cynnwys treuliau teithio a swm ar gyfer unrhyw enillion a gollwyd.

Oes angen cyfreithiwr arnoch chi?

Mae **trac yr hawliadau bychain** yn ffordd anffurfiol o setlo anghydfod **heb** ddefnyddio cyfreithiwr ac mae lefel y costau y bydd yn rhaid i chi eu talu yn gyfyngedig (gweler uchod) Os ydyw'ch cais am £5,000 neu lai (£1,000 neu lai am anaf personol), fyddwch chi **ddim yn gallu**, yn y mwyafrif o achosion, hawlio dim o gostau eich cyfreithiwr eich hun oddi wrth yr ochr arall, ac eithrio swm penodol i gynnwys cost paratoi eich hawl, os ydych yn llwyddiannus. Os collwch chi, fydd dim rhaid i chi dalu costau cyfreithiwr y diffynnydd. Os ydych chi'n ansicr ynglŷn â siarad yn y llys a'ch achos yn cael ei amddiffyn, fe allwch ofyn i berthynas, ffrind neu weithiwr cynghori i siarad ar eich rhan fel eich **cynrychiolydd lleyg**.

Fe fyddwch chi'n atebol i gostau os collwch chi'ch achos a chwithau'n hawlio dros

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

£5,000 neu'n hawlio am **berfformiad penodol** megis amnewidiad neu atgyweiriad o nwyddau diffygiol neu'n hawlio am **esgeuluster neu anaf personol** neu os yw'r achos yn gyfreithiol gymhleth. Yn yr achosion hyn, fe ddylech chi ymgynghori â **chyfreithiwr** cyn dechrau achos llys.

Oes yna derfyn amser?

Mae yna derfynau amser ar gyfer dechrau achos llys. Fel arfer mae yna 3 blynedd ar gyfer anaf personol a 6 mlynedd ar gyfer y rhan fwyaf o faterion defnyddwyr eraill. Mae'r amser yn cychwyn o'r dyddiad y cododd y broblem. Os ydych chi'n ansicr os ydych chi wedi colli'r terfyn amser ai peidio, fe ddylech chi ymgynghori â chyfreithiwr.

Ydy manylion y masnachwr gennych?

Fe fydd angen cyfeiriad llawn yr unigolyn neu'r cwmni yr ydych yn eu herlyn. Os ydych yn erlyn:

- **cwmni cyfyngedig**, fe fydd angen i chi hawlio yn erbyn y **cwmni**, nid y **perchnogion**. Dylech anfon eich ffurflen hawliau i'w **swyddfa gofrestredig** neu i **gyfeiriad y siop** lle buoch chi'n cynnal eich busnes. Os ydych chi am fanylion y swyddfa gofrestredig, fe allwch gael hyn trwy ffonio Tŷ'r Cwmnïau ar 0303 1234 500, neu trwy edrych ar eu gwefan yn www.companieshouse.gov.uk
- **unigolyn** (unig fasnachwr), **rhaid** i chi enwi'r person yr ydych yn ei erlyn ac nid erlyn enw'r busnes yn unig. Gall cyfeiriad y gwasanaeth fod naill ai un arferol y masnachwr neu gyfeiriad cartref diwethaf neu gyfeiriad y busnes. Os mai'r cyfeiriad diwethaf ydyw, rhaid i chi gymryd camau rhesymol i ddod o hyd i leoliad presennol y busnes neu'r lleoliad diwethaf y bu'r masnachwr yn cynnal ei fusnes. Os nad ydych yn gwybod enw'r masnachwr, cysylltwch â Chyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506, am gyngor.
- **partneriaeth**, mae **pob partner** yn **atebol** i unrhyw ddyledion. Fe ddylech erlyn yr holl bartneriaid ar yr un pryd, gan na allwch chi erlyn un ar ôl y llall. Dylai busnes arddangos manylion y perchennog neu bartneriaid ar bapur swyddogol y busnes neu yn eu hadeilad neu bod yn fodlon i'w darparu os gofynnir amdanynt.

Gwneud cais yn y trac hawliadau bychain

Cyn i chi wneud cais, rhaid i chi ysgrifennu at gyflenwr y nwyddau neu wasanaeth gan roi amser penodol iddynt, er enghraifft 14 o ddiwrnodau, i gywiro unrhyw ddiffyg ac o fethu hyn, fe fyddwch chi yn cymryd camau yn y llys sirol. Gelwir hwn yn **'lythyr cyn gweithredu**' a dylid ei anfon gyda **dosbarthiad wedi'i gofnodi**. Ni fydd y llys yn caniatáu i chi wneud cais os na fydd y diffynnydd wedi cael ei hysbysu a chael cyfle i gywiro unrhyw ddiffyg cyn i chi wneud hynny. Os ydych chi'n dal yn anfodlon ac yn dymuno cymryd achos llys, bydd rhaid i chi lenwi **ffurflen hawliau N1** a gellir cael hon oddi wrth eich llys sirol lleol, neu oddi wrth wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn www.justice.gov.uk. Fe ddylech ofyn am y **nodiadau arweiniad** ar sut mae cwblhau'r ffurflen hon. Os ydyw'ch cais am swm o arian penodol sy'n llai na £100,000 fe allech chi gwblhau eich ffurflen a'i throsglwyddo ar-lein yn www.moneyclaim.gov.uk

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Cwblhau'r ffurflen hawliau

Bydd angen i chi roi'r wybodaeth ganlynol:

- **eich enw a'ch cyfeiriad**; *a*
- **enw (au) a chyfeiriad(au) y masnachwr(wyr)** yr ydych yn eu herlyn. Os ydych yn erlyn cwmni cyfyngedig, bydd rhaid i chi nodi os ydych chi'n rhoi cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig. Os ydych chi'n erlyn y perchnogion neu bartneriaid busnes bydd angen i chi ychwanegu **"masnachu fel**" a rhoi **enw eu busnes** ar ôl eu henwau. Os ydych chi'n erlyn **cwmni** fe ddylech chi ychwanegu **"erlyn fel cwmni"** ar ôl enw'r cwmni; *a*
- **manylion byr am y cais** megis 'adennill arian am nwyddau diffygiol' neu 'iawndal am dor cytundeb'. Am fwy o wybodaeth, gweler taflenni ffeithiau **Nwyddau** neu **Wasanaethau;** *a*
- **gwerth**, sef **y swm yr ydych yn ei hawlio.** Seilir ffi'r llys y byddwch yn ei dalu ar y swm hwn. Fe ddylech gynnwys unrhyw log yr ydych yn ei hawlio (gweler isod). Fe allwch naill ai roi'r union swm yr ydych yn ei hawlio, er enghraifft, os ydych yn hawlio nôl cost eitem ddiffygiol (**swm penodol**) neu fe allwch adael i'r llys i asesu'r iawndal, er enghraifft, os ydych yn hawlio iawndal am wyliau siomedig (**swm amhenodol**). Os ydych chi'n gadael i'r llys benderfynu'r union swm, fe ddylech chi nodi ar ffurflen y llys "Rydw i'n disgwyl adennill dim mwy na £….'. Ni ddylai'r swm hon fod yn fwy na £5,000 os ydych chi am i'r achos gael gwrandawiad yn llys yr hawliau bach; *a*
- **manylion y cais.** Mae'r adran hon yn esbonio beth yw'r broblem a'r camau yr ydych wedi'u cymryd i ddatrys y broblem. Fe allwch chi naill ai gwblhau'r adran hon o'r ffurflen neu anfon manylion eich cais ar wahân o fewn 14 diwrnod o anfon Ffurflen N1; *a*
- **datganiad o wirionedd.** Fe fydd rhaid i chi arwyddo datganiad o wirionedd yn cadarnhau fod y ffeithiau yn eich cais yn wir.

Os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen, efallai y bydd eich swyddfa Cyngor ar Bopeth lleol yn gallu helpu. Er bod **swyddogion y llys** yn gallu'ch helpu i gwblhau eich ffurflen hawliau, **allan nhw ddim** rhoi **cyngor cyfreithiol** i chi trwy ddweud os oes gennych gais da neu oddi wrth bwy y dylech chi hawlio.

Hawlio llog

Os nad yw eich cytundeb gyda'r masnachwr yn nodi'r gyfradd llog y gallwch ei hawlio, fe ddylech chi hawlio llog **ar y gyfradd llog statudol**, sydd ar hyn o bryd yn **8%** (gwiriwch gyda'r llys am y ffigwr diweddara).

Os yw'ch cais am **swm penodol**, fe fydd angen i chi weithio allan faint o log sy'n ddyledus i chi. Cyfrifir hyn o'r dyddiad y daeth yr arian yn ddyledus tan y dyddiad pan gyflwynwyd y ffurflen hawlio.

Er mwyn cyfrifo'r llog, rhaid i chi gyntaf weithio allan eich cyfradd llog dyddiol. Gan ddefnyddio cyfrifiannell, gwnewch hyn:

0.00022 × swm eich cais - bydd hyn yn rhoi i chi'r gyfradd llog dyddiol.

Bydd angen i chi wedyn weithio allan y swm o log sy'n ddyledus i chi i fyny hyd at y dyddiad y byddwch chi'n cyflwyno'ch cais. Rhifwch faint o ddyddiau sydd wedi mynd

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

heibio ers i'r arian ddod yn ddyledus i chi a lluoswch y rhif hwnnw gyda'ch cyfradd llog dyddiol.

Rhaid i chi ysgrifennu'ch cais yn y ffordd ganlynol: *'Mae'r hawliwr yn hawlio llog o dan adran 69 o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984 ar y gyfradd llog o 8% y flwyddyn o (y dyddiad pan ddaeth yr arian yn ddyledus) tan (y dyddiad y byddwch chi'n cyflwyno'ch cais) o £…. (rhowch y swm) a hefyd y llog ar yr un gyfradd i fyny hyd at ddyddiad y dyfarniad neu daliad cynharach ar gyfradd ddyddiol o £….(*rhowch y gyfradd llog dyddiol*)'*

Os ydych yn hawlio **swm amhenodol** nid oes rhaid i chi gyfrifo'r llog, ond fe ddylech chi gynnwys y geiriad hwn ar ôl manylion eich cais**: "***Mae'r hawliwr yn hawlio llog o dan adran 69 o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984 ar y gyfradd llog o 8% y flwyddyn a pharhau ar yr un gyfradd i fyny hyd at ddyddiad y dyfarniad neu daliad cynharach'.*

Cyflwyno'r cais

Efallai y bydd hi'n haws i chi **ddychwelyd** y **ffurflenni wedi'u cwblhau** (yn cynnwys rhai wedi'u llungopïo) i'r llys yn bersonol, gan y gall swyddog y llys fynd drwy'r ffurflen a nodi unrhyw anghysondebau.

Os yw eich hawliad yn un ariannol, rhaid i chi gyflwyno eich cais i Ganolfan Ceisiadau Ariannol y Llys Sirol.

Gofynnir i chi am dalu ffî i ddechrau'r achos. Seilir hwn ar y swm yr ydych yn ei hawlio ond efallai y gallwch gael gostyngiad neu ei hepgor yn dibynnu ar eich sefyllfa ariannol. Fe allwch ddarganfod faint yw'r ffî o wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder www.justice.gov.uk

Pan fyddwch chi'n cyflwyno achosion, rhoddir i chi **hysbysiad o gyflwyno (N205),** sy'n rhoi rhif yr achos, ac fe ddylech ddefnyddio hwn bob tro y byddwch yn cysylltu â'r llys. Bydd y llys yn **postio'r ffurflen hawlio** i'r diffynnydd(ion) (gelwir hyn yn cyflwyno'r ffurflen hawlio) a rhoi gwybod i chi pryd y'i cyflwynir. Os daw yn ôl heb ei dosbarthu, rhoddir gwybod i chi a rhaid i chi gymryd y cyfrifoldeb o'i chyflwyno.

Beth sy'n digwydd nesa?

Bydd gan y diffynnydd **amser cyfyngedig** i **ymateb** i'ch cais. Mae hyn fel arfer yn 14 diwrnod ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd y ffurflen hawlio (16 diwrnod ar ôl iddi gael ei phostio) ond gellir ei ymestyn gan 14 diwrnod arall os bydd y diffynnydd yn cyflwyno ffurflen cydnabod gwasanaeth sy'n nodi eu bod yn bwriadu amddiffyn yr achos.

Nid yw'r diffynnydd yn ateb ac rydych chi wedi hawlio swm penodol.

Cwblhewch ffurflen N225 gan ofyn i'r llys am **ddyfarniad trwy ddiffygdalu**. Os dechreuoch chi'ch cais ar-lein, fe allwch ddefnyddio'r ffurflen gais ar-lein ar gyfer hyn yn www.moneyclaim.gov.uk. Mae cael dyfarniad trwy ddiffygdalu yn golygu y bydd y llys yn gorchymyn y diffynnydd i dalu'r swm llawn yr ydych wedi'i hawlio oherwydd na chafwyd ateb.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Fe ddylech chi wneud hyn cyn gynted ag y bydd y llys yn caniatáu i chi wneud hynny, gan y bydd y llys yn caniatáu cyflwyno amddiffyniad hwyr os derbynnir hyn cyn i chi wneud cais am ddyfarniad trwy ddiffygdalu. Bydd rhaid i chi gwblhau adran sy'n nodi sut yr ydych am i'r diffynnydd(ion) dalu a chymryd eu hamgylchiadau hwy i ystyriaeth. Efallai fod gennych well siawns i gael ad-daliad os derbyniwch chi randaliadau yn hytrach na gofyn am y swm llawn ar unwaith.

Nid yw'r diffynnydd yn ateb ac rydych chi wedi hawlio swm amhenodol

Cwblhewch waelod ffurflen N205B (a roddwyd i chi wrth gyflwyno'ch ffurflen hawlio), gan ofyn i'r llys i orchymyn fod y diffynnydd yn atebol (gyfrifol) am eich cais. Gelwir hyn yn gofyn am ddyfarniad am swm a benderfynir arni gan y llys. Caiff eich cais ei gyfeirio at farnwr fydd yn penderfynu os yw gwrandawiad llys yn angenrheidiol ac os oes angen mwy o dystiolaeth (gan roi cyfarwyddiadau). Anfonir copi atoch chi a'r diffynnydd o benderfyniad(gorchymyn) y barnwr ac unrhyw gyfarwyddiadau eraill gan y barnwr. Caiff eich cais ei ddyrannu naill ai i'r trac hawliadau bychan neu fe gaiff wrandawiad a elwir yn wrandawiad penderfynu. Yn y gwrandawiad penderfynu, bydd y barnwr yn

- rhoi mwy o gyfarwyddiadau manwl, er enghraifft, ynglŷn â'r dogfennau a'r dystiolaeth sydd eu hangen ; *neu*
- os ydyw'n achos syml, penderfynu ar y swm y mae'n rhaid i'r diffynnydd ei dalu.

Mae'r diffynnydd yn amddiffyn yr achos
Os yw'r diffynnydd yn amddiffyn yr achos, caiff ei ddyrannu fel arfer i'r **trac hawliadau bychain**, a chymryd fod eich cais am £5,000 neu lai. Bydd y llys yn anfon **cyfarwyddiadau awtomatig** atoch chi a'r masnachwr ynglŷn â sut yr ymdrinnir â'r achos. Bydd y rhain yn cynnwys:

- pa dystiolaeth sydd angen i chi ei gyflwyno
- y terfynau amser ar gyfer anfon copïau o'ch tystiolaeth at y diffynnydd
- faint o dystion y gallwch eu defnyddio.

Taflenni ffeithiau eraill a allai eich helpu

- Nwyddau
- Mynd i'r llys
- Gwasanaethau
- Dull amgen o ddatrys anghydfod

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 23 Mawrth 2012, a chaiff ei hadolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio p'un ai yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir ai peidio. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho'r copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr